NSPCC

CYMRU | WALES

# Amddiffyn Babanod, Plant a Phobl Ifanc

## Blaenoriaethau polisi allweddol NSPCC Cymru ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru

**MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO**
**EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR**

# Contents


| | |
|---|---|
| Trawsnewid gofal cymdeithasol plant | 2 |
| Cefnogi babanod i gael y dechrau gorau mewn bywyd | 4 |
| Atal ac ymateb i bob math o gam-drin plant yn rhywiol | 6 |
| Cefnogi plant a phobl ifanc i adfer o gamdriniaeth ac esgeulustod | 9 |
| Ôl-nodiadau | 11 |

# Cyflwyniad

Rydyn ni'n credu bod pob plentyndod yn werth brwydro drosto. Gellir a dylid atal camdriniaeth ac esgeulustod fel bod pob babi, plentyn a pherson ifanc yn gallu cyrraedd eu potensial. Ni all unrhyw beth ragweld camdriniaeth neu esgeulustod. Serch hynny, rydyn ni'n gwybod bod babanod, plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny mewn cartrefi a effeithir gan dlodi, cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau neu broblemau iechyd meddwl mewn mwy o berygl. Pan fydd y risgiau hyn wedi'u cyfuno â›r straen sy'n bodoli'n barod ar wasanaethau lleol, mae'r goblygiadau ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc yn peri gofid.

Dros y blynyddoedd diwethaf bu nifer o achosion trasig yn ymwneud â marwolaethau babanod, plant a phobl ifanc. Cafodd y plant hyn eu methu gan yr oedolion o'u cwmpas, gan gynnwys y rhai a oedd i fod i ofalu amdanyn nhw, a'r asiantaethau a'r cyrff statudol a oedd yn gyfrifol am eu hamddiffyn. Ni ddylai gymryd mwy o drychinebau i gadw amddiffyn plant ar yr agenda gwleidyddol. Mae angen i ni greu rhwyd ddiogelwch gymdeithasol gref sy'n amddiffyn babanod, plant a phobl ifanc rhag niwed, ac yn cefnogi bywyd teuluol sefydlog a chariadus. I fabanod, plant a phobl ifanc sydd wedi'u cam-drin neu eu hesgeuluso, mae angen i gymorth fod ar gael i'w helpu i adfer ac i symud tuag at ddyfodol mwy disglair.

Mae yna ffyrdd o gryfhau diogelu ac amddiffyn plant gydag enghreifftiau o arferion positif o bob cwr o'r DU a thu hwnt, a welir mewn sylfaen dystiolaeth gynyddol o'r hyn sy'n gweithio i atal camdriniaeth ac i gefnogi plant.


Ond ni allwn gyflawni'r lefel o newid sydd ei hangen heb gamau sylweddol gan arweinwyr gwleidyddol a'r llywodraeth. Mae angen ymrwymiad trawsbleidiol i gryfhau amddiffyniadau i fabanod, plant a phobl ifanc. Rhaid i'w lleisiau a'u profiadau gael eu clywed o fewn coridorau grym a rhaid ystyried eu barn ym mhob penderfyniad.

## Llywodraeth sy'n hyrwyddo plant:

Ynghyd ag elusennau plant eraill yng Nghymru, rydyn ni'n annog Llywodraeth nesaf Cymru i wneud babanod, plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth. Rydyn ni'n galw ar wleidyddion i ymrwymo i'r canlynol:

- Gweinidog Cabinet ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc i ddarparu arweinyddiaeth gref a chyfeiriad, hyrwyddo a chefnogi eu hawliau a bod yn atebol am gyflawni canlyniadau gwell.
- Pwyllgor Cabinet ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu hawliau'n cael blaenoriaeth a'u gwireddu ar draws pob adran o'r llywodraeth.
- Pwyllgor craffu trawsbleidiol yn y Senedd ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc a fydd yn dwyn gweinidogion i gyfrif am y penderfyniadau a wnânt.

# Trawsnewid gofal cymdeithasol plant



## Dylai Llywodraeth nesaf Cymru fuddsoddi mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar i gefnogi teuluoedd cyn iddyn nhw gyrraedd argyfwng.

Mae teuluoedd yng Nghymru yn wynebu heriau cynyddol. Mae'r 8fed arolwg tlodi plant yn dangos darlun digalon: mae ymarferwyr yn disgrifio'r sefyllfa bresennol fel un "heb ddiwedd mewn golwg " a theuluoedd "yn sownd mewn cylch negyddol o ddyled, tai gwael a straen sy'n ymwneud ag anghenion byw sylfaenol iawn; sydd i gyd yn cyfrannu at ddiffyg rheolaeth lwyr dros ganlyniadau eu bywydau eu hunain" . Mae NSPCC Cymru o'r farn y gall tlodi fod yn niwed strwythurol y gellir ei atal sy'n effeithio'n negyddol ar blant a gall eu rhoi mewn mwy o berygl. Mae cysylltiad clir, tystiolaethol rhwng tlodi a cham-drin ac esgeuluso plant. Gall diffyg adnoddau atal teuluoedd rhag darparu'n ddigonol ar gyfer eu plant, a gall straen ansicrwydd ariannol orlethu teuluoedd, gan effeithio ar berthnasoedd. Mae byw mewn tlodi yn golygu nad yw anghenion rhieni'n cael eu diwallu, a gall hyn, yn ei dro, effeithio ar eu gallu i ofalu am eu plentyn. **Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ystyried rôl tlodi o ran cynyddu'r risg o gam-drin ac esgeulustod ymhlith plant a sut gall gwaith gwrthdlodi helpu i gadw plant yn fwy diogel.**

### Ffigurau allweddol:

- Mae 31% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi
- Mae nifer y plant sydd mewn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 25% rhwng 2014 a 2024.
- Er gwaethaf cynnydd o 4.5% yn y setliad llywodraeth leol nesaf, mae cynghorau yn parhau i wynebu bwlch o £560m mewn cyllid ar gyfer 2025/26.

Yn y cyfnod hwn o galedi ariannol, nid yw creu rhwyd ddiogelwch gymdeithasol o amgylch ein teuluoedd mwyaf agored i niwed erioed wedi bod yn bwysicach. Serch hynny, mae gwariant gofal cymdeithasol o dan bwysau mawr o ystyried y cynnydd yn y galw am wasanaethau. Yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf, mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod "blaenoriaethu buddsoddiadau mewn cymorth cynnar yn dal i fod dan bwysau sylweddol wrth i wasanaethau frwydro i ddiwallu anghenion gofal a chymorth uniongyrchol pobl er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel a bod eu llesiant yn cael ei hyrwyddo."[1] Rydyn ni'n ymwybodol bod cynghorau yn wynebu pwysiau ariannol enfawr ac mae'r arian prin sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio fwyfwy i fynd i'r afael â darparu cymorth brys i blant a theuluoedd sydd eisoes mewn argyfwng, serch hynny, mae ariannu ymyrraeth gynnar hefyd yn hollbwysig ar gyfer cefnogi teuluoedd ac amddiffyn plant sy'n agored i niwed.

Rydyn ni eisiau gweld cymorth cynnar a digonol i greu rhwyd ddiogelwch gymdeithasol ar gyfer teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd. **Rhaid i ymyrraeth gynnar i stopio camdriniaeth ac esgeulustod ar yr arwydd cyntaf bod teulu'n ei chael hi'n anodd, a darpariaeth sydd wedi'i hariannu'n ddigonol, fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth nesaf Cymru**. Rydyn ni'n gwybod, drwy werthuso a phrofi, y gall ymyrraeth gynnar effeithiol wella canlyniadau i blant a theuluoedd - ond gall methu ag ymyrryd yn gynnar arwain at lu o oblygiadau negyddol yn hwyrach mewn bywyd.[2]

**Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod gweithlu digonol yn cael ei recriwtio a'i gadw yn ogystal â hyfforddiant digonol fel y gall staff ddeall ac ymateb i'r heriau niferus sy'n wynebu babanod, plant a phobl ifanc yng Nghymru.**

Mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn broblem fawr i awdurdodau lleol ledled Cymru, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau plant: mae nifer cynyddol o ymarferwyr newydd gymhwyso ac yn ddibrofiad, sy'n gwaethygu'r anawsterau sy'n gysylltiedig â galw cynyddol ac achosion mwy cymhleth.

Yn 2024, cynhaliodd Gofal Cymdeithasol Cymru waith ymchwil i ddeall yr heriau o ran recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru[3]. Canfu'r adroddiad fod ffactorau fel cyflogau isel, statws isel, lefel y cyfrifoldeb a'r oriau hir yn atal pobl rhag bod eisiau ymuno â'r sector gofal cymdeithasol. Mewn arolwg o weithwyr cymdeithasol a gynhaliwyd yn yr un flwyddyn[4], dim ond 48 y cant a awgrymodd bod ganddyn nhw'r staff iawn i ddarparu gwasanaethau, a theimlai 55 y cant eu bod yn gallu diwallu anghenion pobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw ac yn eu cefnogi. **Rydyn ni eisiau gweld Llywodraeth nesaf Cymru yn dyblu ei hymdrechion i sicrhau bod niferoedd digonol o staff hyderus i gefnogi babanod, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.**

**Dylai Llywodraeth nesaf Cymru roi adnoddau i drefniadau diogelu plant amlasiantaeth a chyflwyno dyletswydd rhannu gwybodaeth newydd, fel y gall gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, plismona, gwasanaethau cymdeithasol plant, addysg ac eraill gydweithio'n well i gadw plant yn ddiogel.**

Yng Nghymru, mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yn ymwneud â gwaith amlasiantaethol cydweithredol. Serch hynny, mae adolygiadau ymarfer plant yn tynnu sylw'n gyson at broblemau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth effeithiol a gweithio amlasiantaethol. Er enghraifft, nodwyd arferion amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth fel thema allweddol yn yr adolygiadau i farwolaethau Logan Mwangi, Lola James a Kaylea Titford. Mae'r adolygiadau hyn yn dangos nad oedd gwybodaeth allweddol wedi'i rhannu rhwng asiantaethau a bod hynny wedi effeithio'n ddifrifol ar y gallu i ymateb.

Rhaid i drefniadau diogelu plant amlasiantaethol gael eu cryfhau gyda mwy o atebolrwydd a rhannu data gwell. **Rydyn ni eisiau gweld Llywodraeth nesaf Cymru yn cyflwyno dyletswydd rhannu gwybodaeth a dyfais adnabod plentyn unigol (SUI), fel sy'n cael ei argymell yn Lloegr ar hyn o bryd.** Mae diogelu plant yn llawer rhy bwysig i un gweithiwr proffesiynol neu asiantaeth ei wneud ar ei ben ei hun. Drwy gydweithio, gall gofal cymdeithasol plant, iechyd, tai, plismona ac addysg roi darlun mwy cyflawn o realiti bywydau plant at ei gilydd, gan arwain at broses well o wneud penderfyniadau a chymorth. Mae hefyd yn bwysig iawn bod gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion yn gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig i gynnig cymorth holistig i blant a theuluoedd. Serch hynny, mae ymgorffori arferion gwaith effeithiol ar y cyd ar draws y wlad yn cymryd amser, buddsoddiad ac arweinyddiaeth gref. **Mae angen i ni weld arweinyddiaeth gref wrth bob partner diogelu ac adnoddau gwell o ran trefniadau diogelu amlasiantaethol gan Lywodraeth nesaf Cymru.** Rhaid i ddysgu a gwella gael eu hymgorffori i'r diwylliant, polisïau a phrosesau.

Mae NSPCC Cymru yn gwerthfawrogi'r rôl hollbwysig y mae'n rhaid i bawb ei chwarae wrth ddiogelu plant yng Nghymru. Rydyn ni eisiau gweithio gyda phartneriaid statudol a chymunedau i atal mwy o farwolaethau, niwed a chamdriniaeth ymhlith plant, gan sicrhau bod pob plentyn yn tyfu ac yn ffynnu.

# Cefnogi babanod i gael y dechrau gorau mewn bywyd

Mae amgylchedd a phrofiadau babanod yn ystod 1000 diwrnod cyntaf eu bywydau yn siapio eu datblygiad deallusol, emosiynol a chymdeithasol yn y dyfodol, a all effeithio ar y cyfleoedd a fydd ganddyn nhw a'u hiechyd corfforol a meddyliol.[5] Mae angen amgylchedd diogel, sefydlog a chariadus ar fabanod yn y cartref gyda pherthnasoedd meithringar â'u gofalwyr i hyrwyddo eu datblygiad iach. Serch hynny, mae rhai teuluoedd yn wynebu heriau fel tlodi, problemau iechyd meddwl amenedigol, cam-drin domestig a thrawma a all ei gwneud hi'n anoddach iddyn nhw ddiwallu anghenion eu babi. Heb gymorth priodol i deuluoedd, gall babanod ddod yn agored i brofi trallod, trawma, camdriniaeth ac esgeulustod. Dyna pam mae angen darparu gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r babi a gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol o ansawdd uchel i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac i helpu i osod plant ar lwybr datblygiadol positif.

**Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod rhieni newydd a darpar rieni sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl yn gallu cael y cymorth iawn**

Mae rhieni newydd a darpar rieni mewn perygl anghymesur o brofi iechyd meddwl gwael, gydag 1 ym mhob 5 o famau[6] ac 1 ym mhob 10 o dadau/partneriaid[7] yn cael eu heffeithio. Os na chaiff ei ganfod a'i drin, gall problemau iechyd meddwl amenedigol gael effaith ddinistriol ar iechyd meddwl a chorfforol mamau, eu partneriaid a'u babanod. Mae problemau iechyd meddwl amenedigol sydd heb eu trin yn un o'r ffactorau risg ar gyfer problemau yn gynnar mewn perthnasoedd.[8] Gall iechyd meddwl gwael ar ochr y fam ei gwneud hi'n anoddach i rieni roi'r gofal sensitif ac ymatebol sydd ei angen ar fabanod. Mae gan hyn y potensial i effeithio ar ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol babanod[9] a gall gynyddu'r risg o gamarfer plant. Ond gellir osgoi neu leihau'r risgiau i rieni a'u babanod drwy ymyrraeth gynnar effeithiol.[10]

Mae cymorth amserol yn bwysig i bob rhiant a'u babanod sy'n profi problemau iechyd meddwl, o rai ysgafn i rai difrifol. Er gwaetha'r cynnydd, nid yw'r gwaith o ddatblygu gofal iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru yn gyflawn, ac mae'r bylchau sylweddol yn y cymorth yn parhau. Er enghraifft, nid oes un o'r Timau Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol ar hyn o bryd yn bodloni Safonau CCQI Math Un ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol[11], sef y safonau gofynnol sydd eu hangen i sicrhau diogelwch cleifion, hawliau, urddas, y gyfraith a hanfodion gofal.[12] Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol yng Nghymru yn cael adnoddau llawn, fel y gallant fodloni safonau ansawdd, a bod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys tadau a phartneriaid.

**Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gyflwyno gwasanaethau arbenigol ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r babi ledled Cymru i gefnogi'r babanod sy'n wynebu'r perygl mwyaf.**

Mae rhai teuluoedd yng Nghymru yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd, fel tlodi, trawma a chamdriniaeth, a gall hynny ei gwneud hi'n anoddach iddyn nhw ddarparu'r gofal sensitif ac ymatebol sydd ei angen ar fabanod. Mae o leiaf 1 o bob 10 babi yn byw mewn ofn neu drallod ar hyn o bryd[13], ond nid oes digon o gymorth arbenigol ar gyfer babanod sy'n agored i niwed a'u teuluoedd[14]. Dim ond tair ardal yng Nghymru (Gwent, Caerdydd a Wrecsam a Sir y Fflint) sydd â gwasanaethau arbenigol ar gyfer y berthynas rhwng y rhiant a'r babi a all gefnogi teuluoedd sy'n wynebu anawsterau difrifol, cymhleth a/neu barhaus yn eu perthnasoedd cynnar, lle mae lles emosiynol a datblygiad babanod mewn perygl arbennig.[15] Mae angen buddsoddiad gan Lywodraeth nesaf Cymru i ddatblygu

cynnig mwy cyfartal o ran cymorth arbenigol ar draws Cymru. [16] Mae'r gwasanaethau hollbwysig hyn yn cynnig cymorth uniongyrchol i deuluoedd sydd angen cymorth arbenigol i gryfhau'r berthynas â'u babanod, yn ogystal â defnyddio eu harbenigedd i uwchsgilio'r gweithlu lleol i ddeall a chefnogi'r berthynas rhwng y rhiant a'r babi.[17] Mae ymchwil hefyd wedi dangos bod buddsoddi yn y cymorth i deuluoedd yn y blynyddoedd cynharaf yn creu canlyniadau economaidd gwell ac yn lleihau'r angen i wario'n hwyrach.[18]

**Dylai Llywodraeth nesa Cymru amddiffyn babanod a phlant ifanc iawn rhag tlodi**

Mae un o bob tri plentyn yng Nghymru wedi'u heffeithio gan dlodi[19], sef un o'r problemau mwyaf arwyddocaol a pharhaus y mae teuluoedd yn eu hwynebu[20], ac mae'n bryderus bod tlodi dwfn ar gynnydd[21]. Y plant ieuengaf sydd fwyaf tebygol o fod mewn perygl o fod mewn tlodi[22], gyda 40% o blant o dan 5 oed yn byw mewn tlodi yng Nghymru.[23] Gall wynebu tlodi achosi niwed i blant o unrhyw oedran, ond gall fod yn arbennig o ddifrifol i fabanod, oherwydd gall eu profiadau yn ystod y 1000 o ddiwrnodau cyntaf siapio eu llesiant gydol oes.[24] Gall tlodi effeithio'n negyddol ar ddatblygiad iach a gall effeithio ar gyfleoedd bywyd plentyn, gan gynnwys cyrhaeddiad addysg is, iechyd a llesiant a chanlyniadau economaidd gwaeth[25]. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ganolbwyntio ar leihau tlodi plant yn ystod eu plentyndod cynnar fel rhan o'u hymdrechion i leihau tlodi plant yng Nghymru ac i sicrhau y gall pob babi gael y dechrau gorau mewn bywyd.

# Atal ac ymateb i bob math o gam-drin plant yn rhywiol



## Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gael strategaeth holistig ar gam-drin plant yn rhywiol fel bod pawb yn cydweithio i gadw babanod, plant a phobl ifanc yn ddiogel

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn ddinistriol a gall gael effeithiau byr dymor a hirdymor. Gall effaith cam-drin rhywiol barhau am oes ac effeithio ar les seicolegol a chorfforol, teulu a pherthnasoedd personol. Mae rhai astudiaethau[26] yn awgrymu ei fod yn cymryd wyth mlynedd ar gyfartaledd i ddatgelu'r gamdriniaeth, ac nid yw rhai plant byth yn teimlo y gallan nhw ddweud wrth unrhyw un am y peth.

## Mae cam-drin plant yn rhywiol yn parhau i fod yn gudd ac yn cael ei dan-adrodd:

### Ffigurau allweddol:

- Yn 2023/24, amcangyfrifir bod 500,000 o blant wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr. [27]
- Er gwaethaf hynny, dim ond 199 o blant – 15% yn llai na'r llynedd – a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant yn unswydd neu'n rhannol oherwydd pryderon am gam-drin rhywiol, sef 5% o'r holl gofrestriadau. [28]

Mae dull iechyd y cyhoedd tuag at gam-drin plant yn rhywiol yn nodi cyfrifoldebau pawb wrth fynd i'r afael ag ef. Rhaid i bolisïau a gweithdrefnau amharu ar droseddwyr posib a galluogi i blant a phobl ifanc ddatgelu ym mhob man y mae plant yn mynd iddo. Mae angen model o gymorth ar fabanod, plant a phobl ifanc hefyd sy'n cwmpasu'r mannau a'r cyfoedion y maent yn rhyngweithio â nhw ac yn cysylltu'r gymuned gyfan i'w cadw'n ddiogel. Dylai dulliau ataliol hefyd ystyried y ffactorau cyd-destunol a chymunedol, y tu hwnt i'r lleoliad teuluol, a allai roi babanod, plant a phobl ifanc mewn perygl.

**Rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau dull iechyd y cyhoedd parhaus tuag at gam-drin plant yn rhywiol a chael strategaeth gref, wedi'i hariannu'n ddigonol, i atal a mynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol.**

### Dylai Llywodraeth nesaf Cymru barhau i flaenoriaethu'r gwaith o atal cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein a'i fod yn cyd-fynd ag ymateb iechyd y cyhoedd

Mae'r byd ar-lein yn rhan annatod o fywydau plant. Mae plant a phobl ifanc yn dysgu, yn chwarae ac yn cymdeithasu ar-lein – maen nhw'n glir eu bod nhw'n mwynhau llawer o fanteision cyfryngau cymdeithasol, apiau negeseua, gwasanaethau gemau a mynediad i'r byd ar-lein ehangach. Nid yw llawer o blant yn gwahaniaethu rhwng eu byd 'ar-lein' ac 'all-lein', gyda'r ddwy ran yn llywio pwy ydyn nhw a'u profiadau bywyd. Yn ogystal â manteision, daw'r byd ar-lein hefyd â risgiau i ddiogelwch plant y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw. Mae maint y risg a'r niwed y mae plant yn parhau i'w wynebu ar-lein yn annerbyniol. Gyda chynifer o blant yn defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol, gemau a safleoedd negeseua, mae pobl ifanc yn fwyfwy agored i'r bygythiad o gael eu cam-drin, gan oedolion a'u cyfoedion fel ei gilydd.

## Ffigurau allweddol:

- Cafodd dros 2,000 o droseddau yn ymwneud â delweddau o gam-drin plant yn rhywiol eu cofnodi gan yr heddlu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n gyfystyr â thua chwech y dydd.[29]
- Mewn troseddau lle cofnododd yr heddlu'r platfform a ddefnyddiwyd, digwyddiodd union hanner (50%) ar Snapchat a chwarter ar gynhyrchion Meta- 11% ar Instagram, 7% ar Facebook a 6% ar WhatsApp.[30]
- Cafodd dros 550 o droseddau Cyfathrebu'n Rhywiol â Phlentyn eu cofnodi gan yr heddlu yng Nghymru yn ystod 2023/24 - dros ddwbl y nifer ers 2017/18 pan ddaeth y drosedd i rym am y tro cyntaf.

Mae sicrhau diogelwch cyfartal i blant ar-lein ac all-lein yn gofyn am reoleiddio ledled y DU ac ymdrechion atal ac adfer cenedlaethol i gydweithio. Dylai dull Cymru gyfan ddod ag addysg, diogelu plant a gorfodi'r gyfraith at ei gilydd er mwyn meithrin amgylchedd ataliol ac amddiffynnol a chadw plant yn ddiogel ar-lein. **Rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru ddarparu arweinyddiaeth glir ar ymdrechion atal ac adfer, gan gynnal Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Ddiogelwch Plant Ar-lein sy'n gryf ac yn uchelgeisiol, wedi'i ddiweddaru'n flynyddol, sy'n ategu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein, ac sy'n ffurfio rhan allweddol o'r dull iechyd y cyhoedd ehangach o atal pob math o gam-drin plant yn rhywiol.**

Rhaid i bolisi diogelwch plant ar-lein gynnwys arloesedd a chamau penodol i gadw i fyny â'r bygythiad ar-lein sy'n dwysáu ac yn esblygu'n barhaus, sy'n wynebu ein plant, yn enwedig mewn perthynas â Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Mae angen i Gymru ystyried risgiau yn ogystal â chyfleoedd mewn perthynas â thechnolegau datblygol. **Rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru gyflwyno dyletswydd gofal statudol ar gyfer y rhai sy'n cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol yng Nghymru.**

Y ffordd orau o ddeall profiadau plant ar-lein yw drwy siarad â nhw'n uniongyrchol. Mae ganddyn nhw brofiad uniongyrchol o ran sut mae datblygiadau technolegol yn effeithio arnyn nhw, beth sy'n gweithio'n dda i'w cadw'n ddiogel, a beth sy'n methu. Dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n rhoi ystyriaeth i brofiadau croestoriadol plant. **Rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru sefydlu mecanweithiau ffurfiol i sicrhau yr ymgynghorir yn ystyrlon â phlant a phobl ifanc wrth ddatblygu a gweithredu polisi diogelwch ar-lein.**

Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn amddiffyniad cyfartal yng nghyd-destun Cymru yn golygu ystyried unrhyw risgiau a digonolrwydd ymatebion sy'n ymwneud â chyfathrebu ar-lein drwy'r iaith Gymraeg, yn enwedig wrth i AI ddechrau newid sut rydyn ni'n cyfathrebu ar-lein. Mae dadansoddiad gan NSPCC Cymru o ymchwil[31] Comisiynydd y Gymraeg yn dangos bod posibilrwydd o nifer uchel o blant ledled Cymru yn agored i risgiau o ran cynnwys a chyswllt wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol. **Rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru ariannu ymchwil i adeiladu sylfaen wybodaeth, y mae galw mawr amdani, ar ddefnydd plant o'r iaith Gymraeg ar-lein a'r risgiau posib maen nhw'n eu hwynebu.**

**Dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithio gyda phlant a phobl ifanc a'u hathrawon i werthuso'r broses o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol, gan sicrhau ei bod o ansawdd uchel, yn gynhwysol ac yn berthnasol.**

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn orfodol mewn ysgolion yng Nghymru, ac mae ganddi rôl bwysig wrth ddiogelu plant. Mae gan blant hawl i dderbyn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd uchel, sy'n addas i'w hoedran ac sy'n gynhwysol, wedi'i theilwra i realiti eu bywydau. Gall hyn chwarae rhan allweddol wrth atal cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng cyfoedion.

Mae dysgu am gyrff iach a pherthnasoedd iach yn hawl graidd y dylai pob plentyn ei derbyn. Mae rhaglenni addysgol yn gyfle i sicrhau bod plant yn gwybod bod ganddyn nhw hawl i gael eu trin gydag urddas a pharch a bod ganddyn nhw gyfrifoldeb i drin eraill yn yr un ffordd. Dylai hyn ddechrau'n gynnar a datblygu o ran cymhlethdod drwy gydol eu haddysg, yn unol â gallu esblygol plant.

## Ffigurau allweddol:

- Ar gyfartaledd, mae gweithgareddau atal trais mewn perthnasoedd a dêtio — fel addysgu am berthnasoedd iach mewn Cydberthynas a Rhywioldeb — yn lleihau trais 17%.[32]
- Dywedodd hanner yr athrawon ysgolion uwchradd a holwyd yn y DU nad ydyn nhw'n teimlo'n hyderus yn cyflwyno addysg rhyw a pherthnasoedd.[33]
- Mae nifer o bobl ifanc yn disgrifio eu profiadau o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr ysgol fel annigonol, negyddol, aneffeithiol, mewn rhai achosion yn wrthgynhyrchiol, yn embaras, yn lletchwith ac yn amherthnasol i'w bywydau bob dydd.[34]

Serch hynny, mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n hyderus wrth gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n peri risg o arwain at ddarpariaeth anghyson a gadael rhai plant a phobl ifanc heb y wybodaeth amddiffynnol y mae ganddynt hawl i'w derbyn. Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru werthuso'n barhaus y broses o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orfodol yng Nghymru, gan weithio gyda phlant a phobl ifanc a'u hathrawon, i sicrhau eu bod yn cael darpariaeth gynhwysol a pherthnasol o ansawdd uchel.

# Cefnogi plant a phobl ifanc i adfer o gamdriniaeth ac esgeulustod



## Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod babanod, plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin a'u hesgeuluso yn teimlo eu bod wedi cael eu clywed, eu deall a'u cefnogi.

Mae ymchwil yn dangos, pan fydd plant yn datgelu eu bod wedi'u cam-drin a'u hesgeuluso, gall fod yn gymhleth, yn dameidiog [35] ac nid wastad yn uniongyrchol nac ar lafar.[36] Yn aml, mae plant yn disgrifio'r ofn o gael eu hanwybyddu neu eu cymryd o ddifrif, fel rhwystr allweddol i siarad am eu profiadau. [37] Pan fydd pobl ifanc yn ceisio datgelu eu bod wedi'u cam-drin a'u hesgeuluso, yn aml gall fynd heb ei gydnabod, heb ei glywed neu ei anwybyddu, sy'n golygu nad oes unrhyw gamau'n cael eu cymryd i amddiffyn na chefnogi'r person ifanc hwnnw. [38]

Mae Childline yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin a'u hesgeuluso drwy wrando arnyn nhw a'u grymuso. Mae'n hanfodol bod Childline yn cael ei gydnabod fel rhan o'r rhwydwaith cymorth o ran plant a theuluoedd ac **rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau cyllid cynaliadwy hirdymor i barhau i ddiwallu'r angen.**

Gall pawb ym mywydau plant chwarae eu rhan a'u cadw'n ddiogel rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae marwolaethau trasig plant, gan gynnwys marwolaethau Logan Mwangi a Lola James, yn tynnu sylw at yr angen i atal cyfleoedd diogelu a gollwyd a all gael effaith ddinistriol ar blant, teuluoedd, cymunedau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi. Serch hynny, yn aml nid yw'r cyhoedd yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd diogelu. Mae hon yn thema gyson ar draws y 2,000 o Adolygiadau Achosion o fewn ystorfa genedlaethol y NSPCC. Mae'r rhwystrau a brofir yn cynnwys diffyg dealltwriaeth, ofn goblygiadau, ansicrwydd ynghylch a yw pryderon yn ddilys, a safbwyntiau negyddol am wasanaethau statudol. Gall iaith gyntaf fod yn rhwystr i gael mynediad at wasanaethau yn yr un modd. Mae'n bwysig y gall pob aelod o'r cyhoedd roi gwybod am bryderon yn hyderus ac yn hawdd yn eu dewis iaith, a bod gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae llinell gymorth y NSPCC i oedolion yn chwarae rôl amhrisiadwy wrth gefnogi gwaith awdurdodau amddiffyn plant a helpu oedolion i amddiffyn plant rhag niwed. Mae wedi'i staffio gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig a all roi cyngor arbenigol i oedolion sy'n poeni am blentyn, a nodi a yw achos yn cyrraedd y trothwy o ran ymyrraeth ac atgyfeirio'r rheini at awdurdodau statudol. Yng Nghymru, mae nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud gan ein llinell gymorth NSPCC at asiantaethau allanol bob mis, fel yr heddlu ac awdurdodau lleol, ynglŷn â cham-drin plant, wedi codi bron i 80%, ar gyfartaledd, ers y cyfnod clo. **Rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru ariannu capasiti dwyieithog gwell ar gyfer Llinell Gymorth y NSPCC yng Nghymru, fel y gall alluogi'r gymuned i oresgyn rhwystrau fel ofn, ansicrwydd neu ddilysrwydd.** Bydd hyn yn helpu i gadw plant yn ddiogel drwy wrando ar aelodau'r teulu, y gymuned a rhwydwaith o weithwyr proffesiynol o'u cwmpas, gan wneud y mwyaf o'u dealltwriaeth, eu gwybodaeth a'u llais.

**Dylai Lywodraeth nesaf Cymru warantu mynediad at wasanaethau therapiwtig ar gyfer dioddefwyr ifanc cam-drin plant yn rhywiol a cham-drin domestig, gan gynnwys sicrhau y gall mwy o blant a phobl ifanc gael mynediad at gymorth cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar y plentyn "o dan un to".**

Mae plant a phobl ifanc sydd wedi'u cam-drin (gan gynnwys cam-drin rhywiol a cham-drin domestig) wedi byw drwy drawma, ac yn aml, yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at gymorth sydd â'r adnoddau i ddelio â'u hanghenion unigryw. Nid bai na chyfrifoldeb y plentyn yw camdriniaeth, eto i gyd, efallai y bydd plant sydd wedi'u cam-drin yn teimlo euogrwydd, dryswch neu gywilydd. Efallai na fyddan nhw'n deall beth sydd wedi digwydd iddyn nhw nac yn ei weld fel camdriniaeth.

## Ffigurau allweddol

- Plant a phobl ifanc sy'n profi'r cyfraddau uchaf o drais domestig o blith unrhyw grŵp oedran.[39] -
- Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd 349 o blant a phobl ifanc ar restrau aros yng Nghymru am gymorth wrth y sector cam-drin domestig a thrais rhywiol.[40]
- Mae'n edrych fel pe bai amseroedd aros am wasanaethau i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol wedi mwy na dyblu ers 2015.[41]

Gall profi cam-drin domestig yn y cartref gael effaith ddifrifol ar iechyd a llesiant meddyliol plant. Ar hyn o bryd mae diffyg darpariaeth gwasanaeth ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig sy'n blant ledled Cymru. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod deddfwriaeth y DU a Chymru yn cydnabod plant fel dioddefwyr cam-drin domestig ac yn rhoi cyfrifoldeb ar y sector cyhoeddus i ymateb i drais a chamdriniaeth. Mae tystiolaeth o'r sector arbenigol yn dangos bod y cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn afreolaidd ac yn anghyson. Mae angen cymorth mwy arbenigol, therapiwtig ar blant a phobl ifanc sy'n wynebu cam-drin domestig.

Mae gwasanaethau i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol hefyd yn parhau i fod yn brin ac mae diffyg cyllid cynaliadwy ar draws y system ar gyfer gwasanaethau sy'n benodol i blant a phobl ifanc. Canfu'r Ymchwiliad Annibynnol o Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) y gall dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol fod ddwy i bedair gwaith yn fwy tebygol o ddod yn ddioddefwyr camdriniaeth rywiol, corfforol neu emosiynol unwaith eto yn eu hoes.[42] Un o argymhellion allweddol IICSA yn eu hadroddiad terfynol oedd y dylai Llywodraeth Cymru warantu cymorth therapiwtig arbenigol i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol. Yn ei ymateb, soniodd Llywodraeth Cymru am y gwaith parhaus i ddatblygu darpariaeth bediatrig mewn Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, ond nid yw hyn, hyd yma, wedi cynnwys cymorth therapiwtig sy'n hanfodol ar gyfer cefnogi pob goroeswr.

Mae Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar gael ledled Gogledd, De, Canolbarth a Gorllewin Cymru, ond mae eu gallu ar hyn o bryd i ddarparu cymorth i blant dan 18 oed yn amrywio'n fawr ar draws y rhanbarthau hyn. Er bod yr heddlu yng Nghymru wedi cofnodi bron i 6,000 o droseddau cam-drin plant yn rhywiol yn ystod 2023/24, cefnogodd yr wyth o Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru 1,021 o bobl ifanc dan 18 oed yn yr un cyfnod.

Wrth i Lywodraeth nesa Cymru a phartneriaid allweddol fapio darpariaeth therapiwtig y dyfodol ar gyfer plant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol, bydd yn hanfodol ystyried sut gallant sicrhau darpariaeth o wasanaethau cam-drin rhywiol arbenigol integredig ledled Cymru, sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sydd ar gael yn hawdd. Mae The Lighthouse yn Llundain yn enghraifft o ffordd arloesol o gefnogi plant i adfer ar ôl cael eu cam-drin. Mae'r model Tai Plant yn canolbwyntio ar y plentyn, yn rhyngddisgyblaethol, yn dod ag ymateb amlasiantaethol at ei gilydd ac yn cynnig lle diogel i blant a phobl ifanc adfer. [43] **Rydyn ni eisiau gweld yr hyn a ddysgwyd o'r model tai plant yn llywio'r broses o gyflwyno gwasanaethau cymorth i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol.**

# Ôl-nodiadau


1 Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2023-2024
2 Beth yw ymyrraeth gynnar? | Early Intervention Foundation
3 Deall atyniad, recriwtio ac ymddygiadau ceisio gwaith – adroddiadau ac adnoddau – Gofal Cymdeithasol Cymru – Ymchwil, Data ac Arloesedd
4 Arolwg 'Dweud eich Dweud' y gweithlu 2024: Crynodeb o ymatebion gan weithwyr cymdeithasol – Gofal Cymdeithasol Cymru - Ymchwil, Data ac Arloesedd
5 Center on the Developing Child (2007) The Science of Early Childhood Development (InBrief). Ar gael yn: InBrief: The Science of Early Childhood Development; First 1000 days movement (2021) The First 1001 Days An age of opportunity. Ar gael yn: https://parentinfantfoundation.org.uk/wp-content/uploads/2021/06/1.pdf
6 Bauer, A., Parsonage, M., Knapp, M., Iemmi, V., and Adelaja, B (2014) The costs of perinatal mental health problems. Canolfan Iechyd Meddwl ac Ysgol Economeg Llundain.
7 Cameron, E., Sedov, I. a Tomfohr-Madsen, L (2016) Prevalence of paternal depression in pregnancy and the postpartum: An updated meta-analysis. Journal of Affective Disorders, 206: 189-203; Paulson JF, Bazemore SD. Prenatal, postpartum depression in fathers its association with maternal depression: a meta-analysis. JAMA. (2010) 303: 1961–1969; Leach, L. S, Poyser, C, Cooklin, A. R and Giallo, R (2016) Prevalence and course of anxiety disorders (and symptoms levels) in men across the perinatal period: A Systematic Review. Journal of Affective Disorders, 190: 675-6.
8 Gweler Atodiad 2C Ymddiriedolaeth Wave (2013) Conception to age 2– the age of opportunity. Addendum to the Government's vision for the Foundation Years: 'Supporting Families in the Foundation Years'. Ar gael yn: DocHdl1OnPTRSERVERtmpTarget.
9 Aktar, E., Qu, J., Lawrence, P,J., Tollenaar, M.S., Elzinga, B,M., and Bögels, S,M (2019) Fetal and Infant Outcomes in the Offspring of Parents With Perinatal Mental Disorders: Earliest Influences. *Front Psychiatry.* 10: 391.
10 Stein, A., Pearson, R.M., Goodman, S.H., Rapa, E., Rahman, A., McCallum, M., Howard, L.M., a Pariante, C. M (2014) Effects of perinatal mental disorders on the fetus and child. *The Lancet*, 384: 1800–1819
11 Cynghrair Iechyd Meddwl y Fam (2023) Specialist perinatal mental health care in the UK 2023. Ar gael yn: mmha-specialist-perinatal-mental-health-services-uk-maps-2023.pdf
12 Gweler Lucas, R (2023) Standards for Community Perinatal Mental Health Services. 6ed Argraffiad. Ar gael yn: pqn-community-standards-6th-edition.pdf
13 Llywodraeth ei Fawrhydi (2022) Family Hubs and Start for Life programme guide. Ar gael yn: Family Hubs and Start for Life Programme Guide. Gweler hefyd Hamilton, W., Langley., and Yeo, B (2025) Who is holding the baby? The development of parent-infant teams in the UK. Parent-Infant Foundation. Ar gael yn: PIF-Who-is-holding-the-baby-FINALV2 (1).pdf
14 Ibid
15 Gregory, L., Witcombe-Hayes, S and Fernandez, S (2024) The Golden Thread: A Case for Developing Specialist Parent-Infant Services in Wales. Hefyd ar gael ar-lein yn: The-Golden-Thread-Report-DIGITAL.pdf and PIF-The-Golden-Thread-Report-WELSH.pdf
16 Ibid
17 Hamilton, W., Langley., and Yeo, B (2025) Who is holding the baby? The development of parent-infant teams in the UK. Parent-Infant Foundation. Available at: PIF-Who-is-holding-the-baby-FINALV2 (1).pdf First 1000 days movement (2021) Investing in Babies: The economic case for action. Briff Tystiolaeth 6. Ar gael yn: Investing in Babies (3).pdf
18 Ibid
19 Sefydliad Joseph Rowntree (2025) Tlodi yng Nghymru 2025. Efrog: Joseph Rowntree Foundation.
20 Gweler Comisiynydd Plant Cymru (2023) Comisiynydd yn ymateb i Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Cymru Comisiynydd Plant Cymru. Ar gael yn: Comisiynydd yn ymateb i Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Cymru Comisiynydd Plant Cymru
21 Sefydliad Joseph Rowntree (2025) Tlodi yng Nghymru 2025. Efrog: Joseph Rowntree Foundation.
22 Gweler Bainton, A., Evans, S. and Winckler, V (2024) Ending Poverty in early years. Sefydliad Bevan. Ar gael yn: Ending poverty in early years.pdf; Achub y Plant (2023) Better for Babies. Ending Poverty Among Families with Babies. Ar gael yn: 45c4mr5o75i86iqk0y0uqxrm65stp35l.pdf
23 Sefydliad Joseph Rowntree (2025) Tlodi yng Nghymru 2025. Efrog: Joseph Rowntree Foundation.
24 Achub y Plant (2023) Better for Babies. Ending Poverty Among Families with Babies. Ar gael yn: 45c4mr5o75i86iqk0y0uqxrm65stp35l.pdf
25 Pillas, D., Pikhart, H., Naicker, K., Marmot, M., Morrison, J., Ruiz, M, and Goldblatt, P (2014) Social inequalities in early childhood health and development: a European-wide systematic review. Pediatr Res. 76(5):418-24; Wickham, S., Anwa,r E., Barr, B., Law, C., and Taylor-Robinson, D (2016) Poverty and child health in the UK: using evidence for action. *Arch Dis Child*.101(8):759-66.
26 Allnock, D. and Miller, P. (2013) No one noticed, no one heard: a study of disclosures of childhood abuse. London: NSPCC.
27 Ffynhonnell: Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol – Hwb Data a Dealltwriaeth
28 Ffynhonnell: Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol
29 Cais FOI NSPCC
30 Cais FOI NSPCC
31 y-defnydd-o'r-Gymraeg-ymysg-plant-a-phobl-ifanc.pdf
32 Cronfa Gwaddol Ieuenctid (2022) Gwersi a gweithgareddau atal trais mewn perthnasoedd
33 55 NSPCC (2022) Hanner athrawon ysgolion uwchradd ddim yn teimlo'n hyderus wrth gyflwyno addysg ryw a pherthnasoedd
34 NSPCC Rhaid i ni addysgu ein hunain: sut mae pobl ifanc yn dysgu am berthnasoedd, rhyw a rhywioldeb
35 Alaggia, R., Collin-Vézina, D., & Lateef, R. (2017). Facilitators and barriers to child sexual abuse (CSA) disclosures: A research update (2000–2016). Trauma, Violence, & Abuse; Allnock, D. and Miller, P. (2013) No one noticed, no one heard: a study of disclosures of childhood abuse. London: NSPCC.
36 Allnock, D. and Miller, P. (2013) No one noticed, no one heard: a study of disclosures of childhood abuse. London: NSPCC; Ungar, M., Bartner, K., McConnel, S. M., Tutty, L. M., and Fairholm, J. (2009) Patterns of Abuse Disclosure among Youth. Qualitative Social Work, 8(3), 341-356.
37 Ibid
38 Ibid
39 Bywydau Ifanc Diogel | Pobl ifanc a cham-drin domestig - SafeLives
40 Cymorth i Ferched Cymru: Adroddiad Cyflwr y Sector, 2024
41 Canolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (2024) Support matters: The landscape of child sexual abuse support services in England and Wales
42 Fisher et al. (2017) The impacts of child sexual abuse: A rapid evidence assessment. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse.
43 The Lighthouse

NSPCC

CYMRU | WALES

"Mae gan bawb sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc gyfrifoldeb i'w cadw'n ddiogel. Yn yr NSPCC, rydym yn helpu unigolion a sefydliadau i wneud hyn.

Rydym yn darparu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi ar-lein ac wyneb yn wyneb. Rydym yn eich cadw'n gyfredol gyda'r polisïau, arferion ac ymchwil diweddaraf ym maes diogelu plant ac yn eich helpu i ddeall ac ymateb i'ch heriau diogelu. Ac rydym yn rhannu ein gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio i'ch helpu i ddarparu gwasanaethau i blant a theuluoedd.

Mae hyn yn golygu, gyda'n gilydd, y gallwn helpu plant sydd wedi cael eu cam-drin i ailadeiladu eu bywydau. Gyda'n gilydd gallwn amddiffyn plant sydd mewn perygl. Ac, gyda'n gilydd, gallwn ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o atal cam-drin plant rhag digwydd o gwbl.

Ond dim ond gyda'ch cefnogaeth chi, drwy weithio gyda'n gilydd, y gallwn fod yma i wneud plant yn fwy diogel ledled y DU.."

**nspcc.org.uk**

©NSPCC 2025. Registered charity England and Wales 216401. Scotland SC037717. Jersey 384